
LLŶR



# Ymrwymiad i Ymgynghori Cymunedol

## Cyflwyniad

**Mae Floventis Energy yn fenter ar y cyd rhwng y cwmni datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, Cierco, ac SBM Offshore, sy'n arbenigo mewn ynni arnofiol ar y môr.**

**Mae Llŷr 1 yn arae fferm wynt arnofiol profi ac arddangos sydd wedi'i lleoli oddi ar arfordir Sir Benfro yn Y Môr Celtaidd. Ar ei bwynt agosaf at y lan, mae ffin yr ardal arfaethedig sydd i'w gosod ar brydles ar gyfer y prosiect tua 55 km o lannau Ynys Wair a 36 km o arfordir Cymru.**

**Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'n Hymrwymiad i Ymgynghori Cymunedol sy'n nodi sut mae Floventis Energy yn bwriadu ymgynghori â'r cyhoedd cyn cyflwyno ei geisiadau am gydsyniad ar gyfer y Prosiect.**

### Y Broses Gydsynio

TEr mwyn adeiladu Llŷr 1 a'i roi ar waith, bydd angen i ni gyflwyno cais am y cydsyniadau canlynol:

**Cydsyniad Adran 36 o dan Ddeddf Trydan 1989:**
Byddai hyn yn caniatáu i ni adeiladu gorsaf gynhyrchu ar y môr (y fferm wynt) a'i rhoi ar waith. Byddai hefyd yn cynnwys caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer y gwaith ar y tir. Mae hyn yn golygu y byddai cydsyniad ar gyfer ein gwaith ar y tir yn cael ei ystyried fel rhan o'r cais adran 36. Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn gweinyddu ar ran Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch y math hwn o gais.

**Trwydded Forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009:**
Byddai hyn yn caniatáu i ni ymgymryd â rhai gweithgareddau yn yr amgylchedd morol, fel gwaith ar wely'r môr a sefydlu angorfeydd. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu ceisiadau am Drwyddedau Morol ar ran Gweinidogion Cymru.

FLOVENTIS
ENERGY

## Gwybodaeth Amgylcheddol

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) i ddeall effeithiau posibl y Prosiect arfaethedig ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol ac i ganfod ffyrdd o osgoi neu o liniaru unrhyw effeithiau.

Bydd yr asesiad yn ystyried yr effaith weledol; cyfyngiadau ar fordwyo; ecoleg, ansawdd dŵr, prosesau arfordirol ac effeithiau amgylcheddol eraill. Bydd hefyd yn ystyried yr effaith o ran traffig yn ystod y camau adeiladu a'r cyfnod gweithredol.

Bydd canfyddiadau ein AEA yn cael eu cyflwyno mewn dogfen a elwir yn Ddatganiad Amgylcheddol a fydd yn cael ei chyflwyno fel rhan o'n ceisiadau am gydsyniad.

Pan fo hynny'n bosibl, byddwn yn rhannu'r canfyddiadau cychwynnol a gawn yn sgil y broses AEA yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn rhoi cyfle i chi roi eich barn.

**Mae ymgynghori yn elfen allweddol o'r broses AEA a byddwn yn ymgynghori drwy gydol y broses ag ymgyngoreion technegol allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur.**

## Dull o ymgynghori â'r cyhoedd

Rydym wedi amlinellu ein dull o ymgynghori â'r cyhoedd isod, gan gynnwys lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y Prosiect a sut i ymateb. Bydd y ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i llwytho i lawr drwy wefan y cynllun a bydd copïau papur ar gael ar gais. Mae manylion cyswllt i ofyn am wybodaeth neu ddogfennau gennym ni i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Sut byddwn ni'n ymgynghori?

Byddwn yn cynnal yr ymgynghoriad rhwng 15 Ionawr 2024 a 11 Chwefror 2024 a bydd yr holl fanylion am y Prosiect a'n hymgynghoriad yn cael eu rhannu ar wefan y cynllun - **www.llyrwind.com/cy**. Bydd yr ymgynghoriad cyn ymgeisio hwn yn delio ag elfennau ar y tir ac ar y môr y Prosiect a'r holl effeithiau cysylltiedig, fel sy'n cael ei grynhoi uchod.

Bydd yr holl ohebiaeth sy'n ymwneud â'r Prosiect yn ddwyieithog a gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd dogfennau print bras ar gael ar gais.

## Digwyddiadau galw heibio

Bydd tri digwyddiad galw heibio wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal mewn lleoliadau hygyrch yn agos at y datblygiad arfaethedig. Yn amodol ar argaeledd y lleoliadau, rydym yn bwriadu cynnal digwyddiadau yn Hundleton, Doc Penfro a Phenfro. Bydd y digwyddiadau galw heibio hyn yn cael eu cynllunio er mwyn i aelodau o'r cyhoedd eu mynychu, cael golwg fanylach ar y cynlluniau a gofyn cwestiynau i dîm y prosiect.

Bydd arbenigwyr technegol ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau yn y digwyddiad i ateb cwestiynau mwy penodol neu dechnegol a allai fod gan bobl.

Bydd gorsaf ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn y digwyddiadau i alluogi pobl i lenwi'r ffurflen ymateb i'r arolwg â llaw, neu'n ddigidol drwy iPad. Bydd aelod o dîm y prosiect yn gallu helpu gyda hyn ar gais.Bydd copïau caled o'r arolwg ar gael i'r rhai sy'n bresennol fynd adref gyda nhw a'u dychwelyd yn eu hamser eu hunain drwy'r post.

## Ystafell Ymgynghori Rithwir

Bydd yr Ystafell Ymgynghori Rithwir (VCR) yn cael ei defnyddio fel dull ychwanegol o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae hwn yn adnodd rhyngweithiol ar y we sydd â'r nod o ategu digwyddiadau wyneb yn wyneb a chynyddu cyrhaeddiad ein hymgynghoriad. Mae hyn yn rhoi mwy o hygyrchedd a hyblygrwydd i bobl nad ydynt yn gallu, neu nad ydynt eisiau, mynd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, gan ganiatáu iddynt weld yr un wybodaeth yn eu hamser eu hunain.

Bydd y VCR yn cael ei datblygu i fod yn debyg i ystafell arddangos draddodiadol, gyda byrddau arddangos o amgylch yr ystafell, yn ogystal â gwybodaeth ategol arall. Bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori ar gael i'w lawrlwytho o'r VCR, gan gynnwys llyfryn yr ymgynghoriad. Bydd y VCR hefyd yn cynnwys gorsaf ymateb i ymgynghoriad, lle gall pobl gyflwyno eu hadborth ar-lein, neu lawrlwytho fersiwn copi caled i'w chyflwyno dros e-bost neu drwy'r post.

Bydd y VCR yn cael ei gwneud yn rhan annatod o **www.llyrwind.com/cy**

## Sut byddwn ni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad?

Rydym wedi nodi sawl dull o roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn sicrhau bod y gymuned leol a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ac yn cael cyfle i gymryd rhan ynddo a rhoi eu hadborth. Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i ganfod unrhyw grwpiau Anodd eu Cyrraedd a byddwn yn diweddaru'r ddogfen yn ôl yr angen.

| Dull | Manylion |
|---|---|
| **Tudalen we'r prosiect** | Bydd crynodeb llawn o'r prosiect a dolen i'r VCR a fydd yn cynnwys fersiynau electronig o'r holl ddeunyddiau ymgynghori ar gael yn: **www.llyrwind.com/cy** |
| **Cerdyn post gwybodaeth** | Byddwn yn anfon cerdyn post i gyfeiriadau preswyl a busnes mewn ardal benodol, yn seiliedig ar ôl troed y prosiect, yn lansiad yr ymgynghoriad.<br>Bydd y cerdyn post yn rhoi manylion yr ymgynghoriad, gan gynnwys ble i gael rhagor o wybodaeth, sut i ymateb a'r digwyddiadau cyhoeddus. Bydd hefyd yn cynnwys ein manylion cyswllt fel bod modd i bobl ofyn cwestiynau neu ofyn am gopïau wedi'u hargraffu o ddeunyddiau. |
| **Cyfryngau a Hysbysebion** | Bydd datganiadau i'r wasg/hysbysebion i'r wasg yn cael eu hanfon at gyhoeddiadau lleol yn ystod y broses cyn ymgeisio, gan gynnwys manylion y broses ymgynghori ac arddangosfeydd cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys The Western Telegraph a The Pembrokeshire Herald, yn ogystal â chyfnodolion masnach pysgota eraill a chyhoeddiadau rhanbarthol. |
| **Cyfryngau cymdeithasol** | Byddwn yn edrych ar opsiynau i fanteisio ar sianeli cyfryngau cymdeithasol presennol, gan gynnwys darparu cynnwys cyfryngau cymdeithasol i awdurdodau lleol a chyrff eraill. |
| **Ymgysylltu gwleidyddol/ briffio cynghorau tref a chymuned** | Bydd gwleidyddion lleol, cynghorau a grwpiau cymunedol perthnasol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am bob agwedd ar y Prosiect drwy e-bost a gohebiaeth ysgrifenedig. Pan fo'n bosibl, byddwn yn gofyn i'r rhanddeiliaid hyn rannu gwybodaeth am yr ymgynghoriad drwy eu sianeli eu hunain. |

## Sut gall y cyhoedd roi adborth?

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yn y ffyrdd canlynol:

- **Ar-lein** Llenwch yr ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein yn: **www.llyrwind.com/cy**
- **E-bost** Anfonwch ffurflen adborth wedi'i llenwi dros e-bost neu anfonwch ymateb testun rhydd i info@llyrwind.com
- **Post** Llenwch gopi papur o'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i ddychwelyd at:

  **Swyddfeydd Prosiect Llŷr, Swyddfa 20, Canolfan Arloesi'r Bont,
  Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro SA72 6UN**

Bydd y cyfnod ymgynghori yn para o 15 Ionawr 2024 tan 11 Chwefror 2024. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad yw 23:59 ar 11 Chwefror 2024.

Mae'r manylion cyswllt isod hefyd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio y tu allan i'r cyfnod ymgynghori:

**Cyfeiriad post:**
Swyddfeydd Prosiect Llŷr, Swyddfa 20, Canolfan Arloesi'r Bont,
Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro SA72 6UN

**Gwefan:** www.llyrwind.com /cy
**Rhif ffôn:** 01646 689275
**Cyfeiriad E-bost:** info@llyrwind.com

Ar gyfer ymatebwyr y mae'n well ganddynt gael copi caled o'r llyfryn ymgynghori a'r ffurflen ymateb, byddwn yn sicrhau bod y deunyddiau hyn ar gael yn ein swyddfa ac mewn adeiladau eraill sy'n agored i'r cyhoedd lle bo hynny'n bosibl:

Swyddfeydd Prosiect Llŷr, Swyddfa 20, Canolfan Arloesi'r Bont,
Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro SA72 6UN

## Beth fydd yn digwydd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad?

Bydd yr holl ymatebion a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu cofnodi a'u dadansoddi. Bydd y dadansoddiad manwl yn ein galluogi i ddeall y safbwyntiau, y cyfleoedd a'r pryderon a godwyd gan ein holl randdeiliaid a sut gellir mynd i'r afael â'r rhain. Pan fydd modd gwneud hynny, byddwn yn defnyddio'r adborth i helpu i ddylanwadu ar ddyluniad y Prosiect neu i helpu i ddod o hyd i ffyrdd o leihau effeithiau'r Prosiect.

Byddwn yn crynhoi ein canfyddiadau mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn rhoi manylion yr adborth a gafwyd a sut roedd wedi dylanwadu ar ein cynigion. Byddwn yn cyflwyno'r adroddiad fel rhan o'n cais.

Ar ôl i ni gyflwyno ein cais, bydd cyfle arall i chi ddweud eich dweud drwy wneud sylwadau ar y cais a chofrestru fel Parti â Diddordeb ar gyfer unrhyw Ymchwiliad Cyhoeddus.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y Prosiect hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy ffonio **01646 689 275** neu drwy anfon e-bost at dîm y prosiect **E:info@llyrwind.com**

FLOVENTIS
ENERGY